Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Betws
Betws Road
Betws
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 2HE

22/01/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Betws yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol yn ogystal ag un o flaenoriaethau datblygu cyfredol yr ysgol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Codi safonau darllen Cymraeg disgyblion

- Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer datblygu medrau darllen Cymraeg disgyblion. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau darllen sylfaenol cadarn ac yn meithrin agwedd gadarnhaol at ddarllen.
- Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi gwerthuso'r ddarpariaeth ar gyfer darllen Cymraeg yn fwriadus. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Maent wedi cychwyn mynd i'r afael ag ychydig o'r meysydd hyn. Mae hyn yn cynnwys darparu ychydig o weithgareddau dysgu proffesiynol perthnasol. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith y camau hyn ar ddeilliannau disgyblion.
- Ar adegau, mae athrawon yn darparu adnoddau sy'n cefnogi medrau darllen disgyblion yn addas. Maent yn holi disgyblion yn briodol, ar y cyfan, i adalw dysgu blaenorol ac annog disgyblion i gynnig rhesymau i gefnogi eu barnau. Er hyn, nid

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

yw athrawon yn darparu testunau a gweithgareddau sy'n diwallu anghenion mwyafrif y disgyblion yn ddigon cyson.
- Mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn weddol rugl ac yn defnyddio strategaethau priodol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Mae ychydig yn defnyddio'u lleisiau'n bwrpasol i gyfleu ystyr wrth ddarllen yn uchel ac yn dangos dealltwriaeth addas o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Maent yn trafod nodweddion llyfrau a thestunau yn weddol hyderus ac yn mynegi barnau syml am yr hyn y maent yn ei ddarllen.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu darllen yn anghyson ar draws yr ysgol. Nid yw'r cynllunio yn ddigon bwriadus nac yn ddigon cydlynus dros amser. Ar y cyfan, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent dros amser yn eu medrau darllen Cymraeg.
- Mae'r pennaeth dros dro yn ymwybodol bod angen datblygu'r agwedd hon ymhellach.

### Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i alluogi pob un o'r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

- Mae gan y pennaeth dros dro ddealltwriaeth gadarn o gynnydd yr ysgol tuag at fodloni gofynion yr argymhelliad hwn. Mae hi'n cydnabod ychydig o welliannau yn y ddarpariaeth ers yr arolygiad craidd, ac yn adnabod yn glir yr elfennau sydd angen eu gwella ymhellach.
- Yn ddiweddar iawn, mae'r pennaeth dros dro wedi sicrhau bod dysgu proffesiynol perthnasol a buddiol i staff yn cefnogi rhannu arferion effeithiol ar draws yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at staff yn dechrau trafodaethau i gysoni disgwyliadau ar gyfer disgyblion.
- Mae athrawon a staff cymorth yn dechrau cydweithio'n fwriadus i addasu a gwella'r ddarpariaeth. Maent yn cynllunio'n ofalus i ddarparu gweithgareddau dysgu sy'n cysylltu'n bwrpasol â diddordebau disgyblion ac yn adeiladu'n briodol ar eu dysgu blaenorol. Mae hyn yn cefnogi ennyn a chynnal diddordeb disgyblion a'u parodrwydd i ymgymryd â'u tasgau.
- Yn yr arfer orau, mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n hwyluso ac annog disgyblion i ddewis lefel her eu tasgau. Mae llawer o'r disgyblion yn trafod yn llwyddiannus sut maent yn dethol y gweithgaredd sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Er hyn, ar draws yr ysgol, mae disgwyliadau athrawon yn parhau i fod yn rhy isel er mwyn cefnogi pob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692043

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol